

Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

PC3: Y strategaeth anheddu

Cynllun i'w archwilio
gan y cyhoedd

Tachwedd 2025



This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partion; a Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.



Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod

Conwy County, the right environment to live, work and discover

Cynnwys

1	Pwrpas yr adroddiad.....	5
2	Hierarchaeth Aneddiadau:.....	6
	Ardaloedd Trefol.....	6
	Canolfan Gwasanaethau Allweddol	7
	Prif Bentreffi	8
	Pentrefi Bychain	9
	Pentrefannau	9
	Trosolwg o Hierarchaeth Aneddiadau'r CDLIN	10
3	Aneddiadau a Rennir	13
	Hierarchaeth aneddiadau CDLI Eryri.....	13
	Aneddiadau a rennir	15
	Cymharu ymagwedd polisi tuag at dai	15
	Crynodeb aneddiadau a rennir.....	18
4	Ffiniau Aneddiadau	20
	Trosolwg o Ffiniau Aneddiadau.....	20
	Cyn ddyraniadau'r CDLI	21
	Dyraniadau tai (gan gynnwys defnydd cymysg)	22
	Dyraniadau eraill	25
	Mannau hamdden	27
	Dyraniadau newydd arfaethedig y CDLIN	27
	Tir wedi ei ddatblygu a safleoedd wedi eu hymrwymo	28
	Cyfleoedd ar hap posibl	29
5	Newidiadau cysylltiedig i ddynodiadau eraill	31
	Lletemau Glas	31
	Ardaloedd Tirwedd Arbennig.....	34
	Parth Arfordirol	35
	Dynodiadau Mwynau a Gwastraff	38
	Atodiad 1: Y Cyfleusterau a'r Gwasanaethau ym mhob anheddiad.	40
	Atodiad 2: Poblogaeth ac aneddiadau rhanbarth etholiadol.....	43
	Atodiad 3: Safleoedd ymgeisiol	46

Tabl Ffigurau

Ffigur 1: Hierarchaeth Aneddiadau y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd	12
Ffigur 2: Ffin yr anheddiad, Lletem Las a dyraniadau tai yn Llanddulas	33
Ffigur 3: Ffin yr anheddiad, Lletem Las a dyraniadau tai yn Fferm Dinarth Hall, Llandrillo- yn-Rhos,.....	33
Ffigur 4: Ffin yr anheddiad/Ardal Tirwedd Arbennig yn Gyffin, Conwy.....	35
Ffigur 5: Llandudno: Pafiliwn y Pier, y Grand Hotel a'r promenâd	37
Ffigur 6: Deganwy: Marine Crescent.....	37
Ffigur 7: Cei Deganwy	38
Ffigur 8: Ffin yr anheddiad a dynodiadau tywod a graean wedi eu diogelu yn Gyffin, Conwy	39

1 Pwrpas yr adroddiad

- 1.1 Mae hwn yn un o gyfres o Bapurau Cefndir sydd wedi eu cynhyrchu i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy 2018-2033 (CDLIN). Unwaith y bydd wedi ei fabwysiadu, bydd y CDLIN yn disodli Cynllun Datblygu Lleol 2007-2022 (CDLI) i ffurfio'r cynllun datblygu statudol ar gyfer Awdurdod Cynllunio Lleol Conwy (ACLI) sef Bwrdeistref Sirol Conwy, ac eithrio'r ardal o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.
- 1.2 Mae gofyn i Gynlluniau Datblygu Lleol¹ osod strategaeth a mecanweithiau polisi i gyfeirio datblygiad mewn lleoliadau priodol. Canolbwyntir ar ddatblygu tai a chyfleoedd cyflogaeth mewn lleoliadau mwy cynaliadwy mewn aneddiadau mwy, gyda datblygiad yn gyfyngedig mewn ardaloedd nad ydynt yn gweddu i ddatblygiad sylweddol, fel aneddiadau llai ac ardaloedd gwledig. Mae hierarchaeth aneddiadau a ffiniau aneddiadau yn ddau gyfrwng a ddefnyddir gan y CDLIN i helpu i reoli lleoliad a graddfa datblygiad ar y cyd â pholisïau perthnasol a osodwyd yn y CDLIN.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn flaenorol ar gam y Strategaeth a Ffefrir ac mae'n nodi sut y bydd y CDLIN yn mynd i'r afael â rolau a swyddogaethau aneddiadau o fewn ardal cynllun y CDLIN. Bydd yr hierarchaeth aneddiadau a ffefrir yn penderfynu, yn gyffredinol, graddfa a natur gyffredinol datblygiadau tai y gall pob anheddiad eu cefnogi. Mae'r papur cefndir hwn hefyd yn amlinellu'r broses yr ymgymrwyd â hi i ddiwygio (lle bo'n briodol) ffiniau aneddiadau drwy Ardal y Cynllun a newidiadau cysylltiedig i ddynodiadau eraill fel y dangosir ar y Map Cynigion. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â Datganiad Ysgrifenedig y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd, y Map Cynigion a phapurau cefndir perthnasol eraill.

¹ [Polisi Cynllunio Cymru](#); [Llawlyfr Cynlluniau Datblygu](#)

2 Hierarchaeth Aneddiadau:

- 2.1 Roedd Strategaeth a Ffeirir y CDLIN yn nodi'r hierarchaeth aneddiadau a ffeirir, gan ystyried yr holl wybodaeth oedd ar gael, gan gynnwys y strategaeth dwf a ffeirir, newidiadau i gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol (gweler Atodiad 1) a sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfranogiad cyn adneuo. Gellir gweld rhagor o wybodaeth gefndir yn ymwneud â'r dewisiadau o ran yr hierarchaeth aneddiadau a ystyriwyd yn nhystiolaeth gefndir y Strategaeth a Ffeirir.
- 2.2 Mae hierarchaeth aneddiadau'r CDLI mabwysiedig wedi ei ddefnyddio fel pwynt cychwyn, ond gyda'r newidiadau canlynol:
- Llanrwst wedi ei ailddosbarthu fel Canolfan Gwasanaethau Allweddol
 - Llysfaen wedi newid o Brif Bentref Haen 1 i Haen 2
 - Rowen wedi ei dynnu o'r hierarchaeth aneddiadau
 - Glan Rhyd wedi ei dynnu o'r hierarchaeth aneddiadau
- 2.3 Mae Llanrwst wedi ei ailddosbarthu mewn cydnabyddiaeth i'w statws fel Canolfan Gwasanaethau Allweddol o fewn yr ardal strategaeth datblygu gwledig. Mae'r newid hwn hefyd yn adlewyrchu'r strategaeth ofodol a ffeirir, gyda'r holl Brif Bentrefi trefol a Haen 1 yn gorwedd o fewn Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir a Llanrwst yn brif anheddiad o fewn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig.
- 2.4 Mae Llysfaen yn cael ei newid yn Brif Bentref Haen 2, i gydnabod y cyfleusterau cyfyngedig sydd ar gael yn y pentref, ei gynaliadwyedd a'i hygyrchedd mwy gwael i brif gysylltiadau cludiant o'i gymharu â'r tri phentref sy'n weddill yn Haen 1. Mae Rowen yn cael ei symud o'r hierarchaeth anheddiad gan fod y pentref cyfan bron wedi'i leoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, ac eithrio'r siop, yr hen ysgol ac eiddo cyfagos. Mae Glan Rhyd (a ddosbarthwyd yn flaenorol fel pentrefan) hefyd wedi ei symud o'r hierarchaeth aneddiadau gan mai dim ond nifer fechan iawn o dai sydd yma. Ni fyddai unrhyw ddiben cynllunio defnyddiol i'w gynnwys yn yr hierarchaeth aneddiadau.

Ardaloedd Trefol

- 2.5 Mae'r rhain yn cynnwys aneddiadau mwy, gydag isafswm poblogaeth o 3,000. Maent yn cael eu gwasanaethu'n dda gan gludiant cyhoeddus, mae yma ystod eang o gyfleusterau ac mae safleoedd cyflogaeth ynddynt neu gerllaw. Y rhain yw Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Deganwy, Llandudno, Cyffordd Llandudno, Llanfairfechan, Penmaenmawr, Bae Penrhyn/Ochr y Penrhyn, Towyn a Bae Cinmel.
- 2.6 Gan amlaf bydd y rhan fwyaf o ddatblygiadau'n cael eu lleoli yn yr Ardaloedd Trefol, yn amodol ar gapasiti pob anheddiad. Bydd tai yn cael eu darparu ar safleoedd wedi'u dyrannu a safleoedd ar hap. Caiff safleoedd a ddyrannwyd eu dangos ar y Map Cynigion. Argymhellir mai safleoedd a ddyrannwyd yw'r rhai hynny sy'n gallu darparu ar gyfer 10 annedd neu fwy.
- 2.7 Mae safleoedd ar hap fel arfer wedi'u lleoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen. Nid ydynt wedi'u dyrannu ar y Map Cynigion, un ai gan eu bod yn is na'r trothwy o ran maint, neu gan fod eu rhagolygon datblygu'n rhy ansicr. Fodd bynnag, gallant fod yn rhan sylweddol o gyfanswm datblygiad tai anheddiad. Bydd nifer yr anheddau a fydd yn cael eu caniatáu ar safleoedd ar hap yn adlewyrchu faint y gall pob anheddiad dyfu.
- 2.8 Bydd cyfran o anheddau ar safleoedd wedi'u dyrannu a rhai ar hap yn cael eu cadw fel Tai Fforddiadwy ar gyfer Anghenion Lleol, yn unol â pholisïau a chanllawiau cenedlaethol sy'n cael eu datblygu ar dai fforddiadwy.
- 2.9 Bydd yr Ardaloedd Trefol hefyd yn darparu ar gyfer cyfran fwy o ddatblygiadau manwerthu, masnachol a hamdden. Ym mhob achos mae'n rhaid i'r datblygiad fodloni'r profion cymalog ym Mholisi Cynllunio Cymru a bod ar gyfradd sy'n gymesurol â swyddogaeth yr anheddiad.

Canolfan Gwasanaethau Allweddol

- 2.10 Mae Llanrwst wedi ei nodi yn ei chategori ei hun yn yr hierarchaeth aneddiadau. Mae'r dynodiad hwn yn nodi Llanrwst a'i sefyllfa unigryw, yn brif ganolbwynt o fewn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig. Mae'n darparu canolfan bwysig ar gyfer cyflogaeth, manwerthu, diwylliant a thai sy'n cefnogi nid yn unig y dref ei hun, ond hefyd yr ardal wledig o amgylch.

- 2.11 Caiff dyraniad tai newydd ei ddangos yn Llanrwst ar y Map Cynigion, i fodloni'r angen ychwanegol am dai yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig na ellir ei fodloni drwy ymrwymïadau presennol na datblygiadau ar hap a ragwelir.

Prif Bentreffi

- 2.12 Mae Prif Bentreffi yn cynnwys o leiaf 100 o anheddau, ysgol gynradd, gwasanaeth bysiau rheolaidd (gan ystyried gwahanol amgylchiadau rhai cymunedau gwledig) a gan amlaf, siop, swyddfa'r post a thŷ tafarn a chanolfan gymunedol neu fan cyfarfod arall. Mae Dwygyfylchi, Glan Conwy a Llanddulas wedi eu categorïddio yn Brif Bentreffi Haen 1. Mae Betws-yn-Rhos, Cerrigydrudion, Dolgarrog, Eglwysbach, Llanfair Talhaearn, Llangernyw, Llansannan, Llysfaen, Tal-y-bont / Castell a Threfriw wedi eu categorïddio yn Brif Bentreffi Haen 2.
- 2.13 Mae asesiad o'r aneddiadau wedi arwain at ailddosbarthu Llysfaen yn bentref Haen 2 ar gyfer hierarchaeth aneddiadau y CDLIN. Mae Prif Bentreffi Haen 1 yn darparu mwy o gyfleusterau a gwasanaethau na Phrif Bentreffi Haen 2 ac mae ganddynt well mynediad cynaliadwy at yr ardaloedd trefol sy'n uwch yn yr hierarchaeth. Mae'n bwysig bod eu cyfleusterau a'u gwasanaethau presennol yn cael eu gwarchod lle bo modd.
- 2.14 Bydd y Cynllun yn chwarae ei ran drwy wrthwynebu colli siopau pentref a swyddfeydd post a diogelu mannau agored presennol. Bydd y Prif Bentreffi Haen 1 yn darparu cyfuniad o dai gwerth y farchnad a thai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol o ymrwymïadau presennol, ar safleoedd a ddyrannwyd ac o ddatblygu safleoedd ar hap er mwyn gwireddu'r amcanion gofodol ar gyfer darparu tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol a diogelu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol.
- 2.15 Bydd Prif Bentreffi Haen 2 yn ceisio cyflawni 50% o Dai Fforddiadwy ar gyfer Anghenion Lleol ar safleoedd addas sydd mewn lleoliad da mewn perthynas â'r anheddiad presennol, yn cynnwys mewnlenni neu derfynu ac yn cynrychioli angen lleol a ddangoswyd, y lefel o gyfleusterau a gwasanaethau ac i ddiogelu'r Gymraeg. Mae cynlluniau o'r fath yn gyffredinol yn llai (15 annedd ar y mwyaf) na'r rhai a ganiateir yn yr Aneddiadau Trefol a'r Ganolfan Gwasanaeth Allweddol. Efallai y caniateir tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol 100% ar raddfa fach ar ymyl yr

anheddiad lle mae'n bodloni angen lleol. Mae datblygiadau manwerthu, masnachol a hamdden llai'n cael eu caniatáu ar raddfa sy'n briodol i swyddogaeth yr anheddiad a phan mae'n gwella cynaliadwyedd.

- 2.16 Dros gyfnod y Cynllun, yn amodol ar y strategaeth dwf ddewisol, mae disgwyl i'r rhan fwyaf o'r gofyniad o ran tai gael ei rannu rhwng yr aneddiadau hyn (gan gynnwys y Pentrefi Bychain a Phentrefannau) drwy ymrwymïadau presennol, 'safleoedd ar hap' a dyraniadau newydd. Fodd bynnag mae'r Cynllun yn cydnabod y cyfyngiadau i ddatblygu yn Nolgarrog, Tal-y-bont a Threfriw a'r cysylltiadau gyda Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw ddatblygiad arall y tu allan i ffiniau anheddiad Trefriw yn bosibl dros gyfnod y Cynllun o ganlyniad i gyfyngiadau llifogydd a'r dirwedd.

Pentrefi Bychain

- 2.17 Mae Pentrefi Bychain yn cael eu categorïddio fel rhai sydd â rhwng 50 a 100 o anheddau ond sydd ag un cyfleuster cymunedol neu fwy. Bydd polisi yn caniatáu ar gyfer lleiafswm o 50% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol ar safleoedd mewnlenni a therfynu addas a safleoedd eithriad ar gyfer 100% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol fel estyniad i'r anheddiad yn amodol ar dystiolaeth o'r angen. Dylai'r hyblygrwydd hwn annog cyflwyno mwy o geisiadau ar gyfer tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol yn y Pentrefi Bychain.
- 2.18 Gall Pentrefi Bychain hefyd ddarparu lle ar gyfer datblygiadau manwerthu, masnachol a hamdden a ganiateir ar raddfa sy'n gymesur â swyddogaeth yr anheddiad.

Pentrefannau

- 2.19 Pentrefannau yw'r categori lleiaf o aneddiadau. Maent yn ffurfio clwstwr o aneddiadau, fel arfer rhwng 20 a 50. Mewn rhai achosion mae ganddynt hefyd un cyfleuster cymunedol neu fwy. Fodd bynnag, mae gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn gyffredinol yn anaml ac mae'n rhaid rheoli graddfa datblygiad yn llym. Bydd polisi yn caniatáu ar gyfer lleiafswm o 50% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol ar safleoedd mewnlenni a therfynu addas a safleoedd eithriad ar gyfer 100% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol fel estyniad i'r anheddiad yn amodol ar

dystiolaeth o'r angen. Dylai'r hyblygrwydd hwn annog cyflwyno mwy o geisiadau ar gyfer tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol yn y Pentrefannau.

Trosolwg o Hierarchaeth Aneddiadau'r CDLIN

2.20 Mae hierarchaeth aneddiadau'r CDLIN wedi ei nodi yn y rhestr isod ac ar Fap 1.

Trefol

- | | |
|----------------------|--------------------------------|
| ○ Abergele/Pensarn | ○ Mochdre |
| ○ Bae Colwyn | ○ Hen Golwyn |
| ○ Conwy | ○ Penmaenmawr |
| ○ Deganwy/Llanrhos | ○ Bae Penrhyn / Ochr y Penrhyn |
| ○ Llandudno | ○ Llandrillo-yn-Rhos |
| ○ Cyffordd Llandudno | ○ Towyn/Bae Cinmel |
| ○ Llanfairfechan | |

Canolfan Gwasanaethau Allweddol

- Llanrwst

Prif Bentreffi (Haen 1)

- Dwygyfylchi*
- Llanddulas
- Glan Conwy

Prif Bentreffi (Haen 2)

- | | |
|----------------------|-----------------------|
| ○ Betws-yn-Rhos | ○ Llangernyw |
| ○ Cerrigydrudion | ○ Llansannan |
| ○ Dolgarrog* | ○ Llysfaen |
| ○ Eglwysbach | ○ Tal-y-bont*/Castell |
| ○ Llanfair Talhaearn | ○ Trefriw* |

Pentreffi Bychain


- | | |
|---------------------|----------------|
| ○ Bryn Pydew | ○ Llanefydd |
| ○ Glanwydden | ○ Pentrefelin |
| ○ Groes | ○ Pentrefoelas |
| ○ Henryd | ○ Rhyd-y-foel |
| ○ Llanbedr y Cennin | ○ St George |
| ○ Llanddaged | ○ Tal-y-cafn |
| ○ Llanelian | ○ Tyn-y-groes |
| ○ Llangwm | |

Pentrefannau

- | | |
|-------------|---------------|
| ○ Bodtegwel | ○ Bryn-y-maen |
|-------------|---------------|

- | | |
|----------------------|---------------------------|
| ○ Brymbo | ○ Llanfihangel Glyn Myfyr |
| ○ Bryn-Rhyd-yr-Arian | ○ Maerdy |
| ○ Bylchau | ○ Melin-y-coed |
| ○ Capelulo* | ○ Nebo* |
| ○ Cefn Berain | ○ Pandy Tudur |
| ○ Cefn Brith | ○ Pentrellyncymer |
| ○ Dinmael | ○ Pentre Isa |
| ○ Glasfryn | ○ Pentre Tafarn-y-fedw |
| ○ Groesffordd | ○ Rhydlydan |
| ○ Gwytherin | ○ Tan-y-fron |
| ○ Hendre | ○ Groes |

* Aneddiadau sydd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri yn rhannol



Ffigur 1: Hierarchaeth Aneddiadau y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd

3 Aneddiadau a Rennir

- 3.1 Mae Ardal Cynllun CDLIN Conwy yn ffinio â thri Awdurdod Cynllunio Lleol arall - Sir Ddinbych i'r dwyrain; Parc Cenedlaethol Eryri i'r gorllewin a rhannau bach o Wynedd i'r gogledd ddwyrain a'r de. Tra bod ffiniau'r cyngor sir rhwng Conwy a Gwynedd/Sir Ddinbych yn gyffredinol rhwng aneddiadau, mae ffin Parc Cenedlaethol Eryri yn rhedeg yn agos at nifer o aneddiadau a thrwyddynt. O ganlyniad i hyn mae rhai pentrefi sy'n gyfan gwbl o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy wedi eu rhannu rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol Conwy ac Eryri.
- 3.2 Mae'r adran hon yn mynd i'r afael â rolau a swyddogaethau aneddiadau sydd ar y ffin rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a sydd wedi eu rhannu rhwng y ddau ACLI. Mae'n asesu'r ymagweddau polisi cymharol rhwng y ddau Gynllun Datblygu Lleol ac yn pwysu a mesur, yn gyffredinol, sut y gall pob pentref ddisgwyl datblygu yng ngoleuni polisïau hierarchaeth aneddiadau a chyfyngiadau eraill bob ochr i ffin yr awdurdodau.

Hierarchaeth aneddiadau CDLI Eryri

- 3.3 Cafodd CDLI Eryri 2016-2031 ei fabwysiadu yn Chwefror 2019, yn dilyn adolygiad byr o'i ragflaenydd – CDLI Eryri 2007-2022. Er nad yw'r Cynllun hwn yn ymwneud ag ardal CDLIN Conwy, mae'n effeithio ar y cymunedau a rennir gyda CDLI Conwy. Mae'n mabwysiadu ymagwedd bedair haen sy'n cynnwys dwy Ganolfan Gwasanaeth Lleol (Dolgellau a'r Bala), Aneddiadau Gwasanaeth, Aneddiadau Eilaidd ac Aneddiadau Llai. Mae'r hierarchaeth aneddiadau wedi ei nodi ym Mholisi Gofodol C ac Atodiad 6 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri².

Canolfannau Gwasanaeth Lleol

- Dolgellau
- Y Bala

Canolfannau Gwasanaeth

- Harlech
- Aberdyfi
- Betws-y-coed

²[Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-31](#)

- Trawsfynydd
- Llanberis

Aneddiadau Eilaidd

- | | |
|----------------------|-------------------|
| ○ Abergwyngregyn | ○ Llan Ffestiniog |
| ○ Abergynolwyn | ○ Llanbedr |
| ○ Beddgelert | ○ Llanegryn |
| ○ Bontddu | ○ Llanelltyd |
| ○ Brithdir | ○ Llanfachreth |
| ○ Bryncrug | ○ Llanfair |
| ○ Capel Garmon | ○ Llanuwchllyn |
| ○ Dinas Mawddwy | ○ Llwyngwrl |
| ○ Dolgarrog* | ○ Maentwrog |
| ○ Dolwyddelan | ○ Nantlle |
| ○ Dwygyfylchi* | ○ Parc |
| ○ Dyffryn Ardudwy | ○ Pennal |
| ○ Coed Ystumgwern | ○ Rhydymain |
| ○ Friog | ○ Rowen |
| ○ Frongoch | ○ Tal-y-bont* |
| ○ Ganllwyd | ○ Talsarnau |
| ○ Garndolbenmaen | ○ Trefriw* |
| ○ Garreg Llanfrothen | ○ Ysbyty Ifan |
| ○ Gellilydan | |

Aneddiadau Ilai

- | | |
|----------------------|----------------|
| ○ Aberangell | ○ Mallwyd |
| ○ Arthog | ○ Nant Gwynant |
| ○ Betws Garmon | ○ Nant Peris |
| ○ Capel Curig | ○ Nantmor |
| ○ Capelulo* | ○ Nebo* |
| ○ Croesor | ○ Penmorfa |
| ○ Cwm Penmachno | ○ Prenteg |
| ○ Cwrt | ○ Rhoslefain |
| ○ Llanbedr y Cennin* | ○ Rhosygwaliau |
| ○ Llandanwg | ○ Rhyd |
| ○ Llandecwyn | ○ Rhyd ddu |
| ○ Llangywer | ○ Rhyd Uchaf |
| ○ Llanllechid | ○ Taicynhaeaf |
| ○ Llanymawddwy | ○ Ynys |
| ○ Llyn Penmaen | |

* hefyd wedi ei restru yn hierarchaeth aneddiadau CDLIN Conwy

Aneddiadau a rennir

3.4 O'r holl aneddiadau yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri, mae'r canlynol hefyd o fewn hierarchaeth aneddiadau CDLIN Conwy, ac felly maent yn cael eu hystyried yn aneddiadau a rennir:

- Dwygyfylchi
 - Conwy – prif bentref (haen 1)
 - Eryri – anheddiad eilaidd
- Dolgarrog
 - Conwy – prif bentref (haen 2)
 - Eryri – anheddiad eilaidd
- Tal-y-bont
 - Conwy – prif bentref (haen 2)
 - Eryri – anheddiad eilaidd
- Trefriw
 - Conwy – prif bentref (haen 2)
 - Eryri – anheddiad eilaidd
- Llanbedr y Cennin
 - Conwy – pentref bychan
 - Eryri – anheddiad llai
- Capelulo
 - Conwy – pentrefan
 - Eryri – anheddiad llai
- Nebo
 - Conwy – pentrefan
 - Eryri – anheddiad llai

Cymharu ymagwedd polisi tuag at dai

Dwygyfylchi

3.5 Wedi'i ddosbarthu fel Prif Bentref Haen 1 yn CDLIN Conwy; anheddiad eilaidd yn CDLI Eryri. Mae gan y categori anheddiad hwn ffin anheddiad yn y ddwy ardal ACLI.

- 3.6 Yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri, caniateir tai ar y farchnad agored ar raddfa fach a thai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol yn unol â Pholisi Strategol C a Pholisi Datblygu 30. Caiff safleoedd tai eu dyrannu mewn rhai aneddiadau eilaidd, ond nid yn Nwygyfylchi. Mae'r gofyniad tai fforddiadwy yn 50% ar safleoedd o ddwy annedd neu fwy o fewn ffin yr anheddiad. Caiff datblygiadau o 100% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol eu caniatáu ar safleoedd eithriadau tai fforddiadwy addas y tu allan i ffiniau'r anheddiad, ond yn cydffinio, yn unol â Pholisi Datblygu 11.
- 3.7 Nid yw safleoedd newydd wedi eu dyrannu ar gyfer datblygiad preswyl ym Mhrif Bentrefi Haen 1 yn CDLIN Conwy. Mae angen tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol yn Nwygyfylchi yn unol â'r fframwaith tai fforddiadwy a nodwyd ym mholisiâu HS/2, HS/3 a HS/4 y CDLIN. Ar wahân i ddatblygiadau bach sydd wedi eu heithrio o'r gofynion tai fforddiadwy fel yr amlinellwyd yn HS/3, dylai datblygiadau o fewn ffin anheddiad Dwygyfylchi geisio darparu 50% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol (yn ddibynnol ar argaeledd grant) gydag isafswm o 30% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol. Caiff datblygiadau o 100% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol eu caniatáu ar safleoedd eithriadau tai fforddiadwy addas y tu allan i ffiniau'r anheddiad, ond yn cydffinio, yn unol â Pholisi HS/5 y CDLIN.

Dolgarrog, Tal-y-bont a Threfriw

- 3.8 Mae'r aneddiadau hyn wedi eu dosbarthu fel Prif Bentrefi Haen 2 yn CDLIN Conwy ac anheddiad eilaidd yn CDLI Eryri. Mae gan y categori anheddiad hwn ffin anheddiad yn y ddwy ardal ACLI.
- 3.9 Yn CDLI Eryri, caniateir tai ar y farchnad agored ar raddfa fach a thai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol yn unol â Pholisi Strategol C a Pholisi Datblygu 30. Mae safleoedd tai wedi eu dyrannu mewn rhai aneddiadau eilaidd, gan gynnwys Trefriw. Mae'r gofyniad tai fforddiadwy yn 50% ar safleoedd o ddwy annedd neu fwy. Caiff datblygiadau o 100% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol eu caniatáu ar safleoedd eithriadau tai fforddiadwy addas y tu allan i ffiniau'r anheddiad, ond yn cydffinio, yn unol â Pholisi Datblygu 11.
- 3.10 O ganlyniad i'r ffaith na chyflawnwyd dyraniadau tai yn flaenorol, ni chaiff safleoedd eu dyrannu ar gyfer datblygiad preswyl yn CDLIN Conwy. Yn hytrach na hynny

darperir ymagwedd fwy hyblyg i gefnogi tai newydd ar y farchnad agored a thai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol ar safleoedd addas ar hap. Mae o leiaf 50% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol yn ofynnol ar safleoedd o fewn ffin yr anheddiad. Caiff datblygiadau o 100% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol eu caniatáu ar safleoedd eithriadau tai fforddiadwy addas y tu allan i ffiniau'r anheddiad, ond yn cydffinio, yn unol â Pholisi HS/5 y CDLIN.

- 3.11 Mae'r holl bentrefi hyn yn destun cyfyngiadau ffisegol sy'n effeithio ar eu gallu i dyfu, o ganlyniad i dirwedd heriol a phroblemau sylweddol yn ymwneud â pherygl llifogydd sy'n effeithio ar rannau mawr o Ddyffryn Conwy. Yn benodol, mae'r rhan fwyaf o rannau annatblygedig Trefriw yn Ardal Cynllun CDLI Conwy yn gorwedd ym Mharth 3 TAN15 (Parth a Amddiffynnir), sy'n cyfyngu twf pellach yn yr ardal hon. Bydd angen i unrhyw ddatblygiad newydd pellach yn Nhrefriw fod o fewn Parc Cenedlaethol Eryri – adlewyrchir hyn gan y dyraniad yn Nhrefriw o 5 annedd yn CDLI Eryri.

Llanbedr y Cennin

- 3.12 Mae Llanbedr y Cennin wedi ei ddosbarthu fel Pentref Bychan yn CDLIN Conwy ac anheddiad llai yn CDLI Eryri. Nid oes gan y categori anheddiad hwn ffin anheddiad nac unrhyw ddyraniadau tai yn unrhyw un o'r ardaloedd ACLI.
- 3.13 Yn CDLI Eryri caiff datblygiad preswyl cyfyngedig iawn ar raddfa fach ei gefnogi mewn aneddiadau llai. Caniateir hyd at ddwy annedd newydd sy'n dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol (fel eithriad yn fwy) gerllaw anheddau a nodwyd ar y Map Cynigion. Ni chaiff safleoedd Eithriedig tai fforddiadwy eu cefnogi ar ymyl aneddiadau llai.
- 3.14 Yn CDLIN Conwy, mae angen o leiaf 50% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol ar safleoedd o fewn cyfyngiadau pentrefi bychain, i ddarparu uchafswm o 5 annedd marchnad agored. Caiff datblygiadau o 100% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol eu caniatáu ar safleoedd eithriedig tai fforddiadwy addas y tu allan i'r ardal adeiledig, ond yn cydffinio, yn unol â Pholisi HS/5 y CDLIN. Ym mhob achos mae'n rhaid i raddfa'r datblygiad adlewyrchu angen lleol a nodwyd ar gyfer tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol.

Capelulo a Nebo

- 3.15 Mae'r aneddiadau hyn wedi eu dosbarthu fel Pentrefannau yn CDLIN Conwy ac aneddiadau llai yn CDLI Eryri. Nid oes gan y categori anheddiad hwn ffin anheddiad nac unrhyw ddyraniadau tai yn unrhyw un o'r ardaloedd ACLI.
- 3.16 Yn CDLI Eryri caiff datblygiad preswyl cyfyngedig iawn ar raddfa fach ei gefnogi mewn aneddiadau llai. Caniateir hyd at ddwy annedd newydd sy'n dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol (fel eithriad yn fwy) gerllaw anheddau a nodwyd ar y Map Cynigion. Ni chaiff safleoedd Eithriedig tai fforddiadwy eu cefnogi ar ymyl aneddiadau llai.
- 3.17 Yn CDLIN Conwy, mae angen o leiaf 50% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol ar safleoedd o fewn cyfyngiadau pentrefannau, i ddarparu uchafswm o 2 annedd marchnad agored. Caiff datblygiadau o 100% o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol eu caniatáu ar safleoedd eithriedig tai fforddiadwy addas y tu allan i'r ardal adeiledig, ond yn cydffinio, yn unol â Pholisi HS/5 y CDLIN. Ym mhob achos mae'n rhaid i raddfa'r datblygiad adlewyrchu angen lleol a nodwyd ar gyfer tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol.

Crynodeb aneddiadau a rennir

- 3.18 Mae'r dadansoddiad hwn o'r gwahanol sefyllfaoedd polisi yn ymwneud ag aneddiadau a rennir yn CDLI Eryri a CDLI Conwy yn dangos er bod rhai gwahaniaethau, mae'r ymagwedd strategol a gymrwyd tuag at aneddiadau ar draws y ddau ACLI ar y cyfan yn debyg. Mae yna fwy o gategorïau yn hierarchaeth aneddiadau Conwy, fodd bynnag mae yna ymagwedd gyson tuag at ffiniau aneddiadau mewn aneddiadau a rennir. Mae Prif Bentreffi (Conwy) ac aneddiadau eilaidd (Eryri) wedi diffinio ffiniau aneddiadau tra nad yw Pentrefi Bychain a Phentrefannau (Conwy) ac aneddiadau llai (Eryri) yn gwneud hynny.
- 3.19 Mae yna ymagwedd fwy hyblyg tuag at dwf tai yn CDLIN Conwy nac yn CDLI Eryri. Nid yw hyn yn syndod gan fod disgwyl ymagwedd fwy rhwystrol mewn Parc Cenedlaethol. Er y caniateir mwy o anheddau marchnad agored yn CDLIN Conwy,

mae angen datblygiadau tai o hyd yn y rhan fwyaf o'r aneddiadau a rennir a fydd yn cael ei yrru gan dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol.

3.20 Mae'r gwahaniaeth mwyaf mewn ymagwedd polisi rhwng yr Awdurdodau Cynllunio Lleol o fewn un anheddiad yn Nwygyfylchi. Mae Prif Bentrefi Haen 1 yn nes yn nhermau polisi at yr ardaloedd trefol na'r pentrefi llai yn CDLIN Conwy. Mae'r ymagwedd oddefol iawn tuag at ddatblygiad ym Mhrif Bentrefi Haen 1 yn cyferbynnu gyda pholisïau CDLI Eryri yn ymwneud ag aneddiadau eilaidd. Fodd bynnag mae yna wahaniaethau mawr yng ngraddfa a chymeriad y rhannau o Ddwygyfylchi sy'n gorwedd yn y ddwy ardal ACLI, felly ystyrir yr amrywiaethau mewn ymagweddau polisi fel rhai rhesymol.

3.21 Er gwaethaf rhai gwahaniaethau polisi, mae'n bwysig nodi y byddai unrhyw gynigion ar gyfer datblygiad yn ardal ACLI Conwy yn cael eu hasesu yn erbyn polisïau rheoli datblygiad y CDLIN. Byddai unrhyw botensial am effaith negyddol ar Barc Cenedlaethol Eryri yn cael ei gymryd i ystyriaeth fel rhan o broses y cais cynllunio.

4 Ffiniau Aneddiadau

Trosolwg o Ffiniau Aneddiadau

- 4.1 Caiff ffiniau aneddiadau eu defnyddio i ddangos yn eglur graddfa datblygiad preswyl a chyflogaeth o fewn ardaloedd trefol, y Ganolfan Gwasanaeth Allweddol a Phrif Bentrefi Haen 1 a Haen 2. Dim ond ar gyfer y categorïau hyn o anheddiad y mae'r bennod hon felly yn berthnasol. Nid oes gan Fân Bentrefi a Phentrefannau ffiniau aneddiadau. Bydd i ba raddau y defnyddir Pentrefi Bychain a Phentrefannau i ddibenion rheoli datblygiad yn ddibynnol ar asesiad y swyddog achos, mewn perthynas ag amgylchiadau unigol safle cais.
- 4.2 Cafodd ffiniau aneddiadau eu hadolygu fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol, ond roedd rhai anghysonderau a chamgymeriadau'n parhau, rhywbeth y mae'r adolygiad presennol yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Hefyd mae angen i ffiniau aneddiadau gael eu diwygio i ystyried newidiadau ar lawr gwlad o ganlyniad i ddatblygiadau ers mabwysiadu'r CDLI ac i adlewyrchu polisïau yn y CDLIN.
- 4.3 Bwriad ffiniau aneddiadau yw cyfyngu ar ehangu aneddiadau pan nad oes yna ddymuniad i'w hehangu, fodd bynnag mae canllawiau cynllunio cenedlaethol ³ yn eglur y dylai ffiniau aneddiadau hefyd gynnig rhai cyfleoedd ar gyfer datblygu safleoedd ar hap dros gyfnod y cynllun, lle mae hyn yn ffurfio elfen bwysig o'r cyflenwad tai. Ym mhob anheddiad, bydd ffiniau aneddiadau yn cael eu diwygio i gynnwys dyraniadau preswyl arfaethedig, ymrwymïadau neu safleoedd ar hap a safleoedd cyflogaeth a defnydd cymysg presennol. Caiff dyraniadau arfaethedig ar gyfer defnydd nad yw'n ddefnydd preswyl fel arfer eu heithrio o ffiniau aneddiadau lle bo'n briodol, er mwyn helpu i ddiogelu'r safleoedd ar gyfer y defnyddiau hyn ac i osgoi pwysau ar dirfeddianwyr i werthu ar gyfer defnydd gwerth uwch. Unwaith y byddant wedi eu datblygu, a bod y pwysau ar gyfer defnyddiau amgen wedi ei leddfu, fe allai'r safleoedd hyn gael eu cynnwys o fewn ffin yr anheddiad mewn adolygiadau dilynol. Pan fo mannau hamdden ar gyrion aneddiadau, caiff y rhain fel arfer eu heithrio o ffiniau aneddiadau.

³ [Llawlyfr Cynlluniau Datblygu](#) paragraffau 5.20 a 5.21

- 4.4 Ym mhob achos, mae ffiniau aneddiadau wedi eu 'tacluso'. Mae gwelliannau i fapio data, camgymeriadau yn y broses o fapio ffiniau aneddiadau blaenorol a newidiadau cynyddrannol i aneddiadau weithiau wedi arwain at ffiniau aneddiadau nad ydynt yn adlewyrchu ymylon aneddiadau ar lawr gwlad. Mae newidiadau felly wedi eu gwneud ar draws yr holl aneddiadau i gywiro hyn, fel:
- Cynnwys aneddiadau unigol neu glystyrau bach sy'n union gerllaw ffin yr anheddiad
 - Addasu ffiniau aneddiadau i gyd-fynd â chwrttil adeiladau - gan gynnwys/eithrio tir fel bo'n briodol.
- 4.5 Mae newidiadau eraill wedi eu gwneud i ffiniau aneddiadau am y rhesymau canlynol, a eglurir mewn mwy o fanylder isod:
- I dynnu safleoedd sydd wedi eu dyrannu yn y CDLI nad ydynt wedi eu datblygu, lle na fyddent yn mewnlenni/ymestyn aneddiadau yn rhesymegol
 - I dynnu mannau hamdden o ffin yr anheddiad (lle bo'n briodol)
 - I gynnwys dyraniadau tai newydd arfaethedig y CDLIN
 - I gynnwys tir y tu allan ond gerllaw ffiniau aneddiadau sydd wedi ei ddatblygu neu wedi cael caniatâd cynllunio
 - I gynnwys cyfleoedd ar gyfer datblygu posibl ar hap mewn safleoedd mewnlenni rhesymegol, oni bai eu bod yn cael eu hamddiffyn gan ddynodiadau eraill (e.e. Lletem Las neu Ardaloedd Tirwedd Arbennig)

Cyn ddyraniadau'r CDLI

- 4.6 Ni fydd safleoedd a ddynodwyd ar gyfer datblygu yn y CDLI ond nad ydynt eto wedi dod ymlaen yn cael eu cyflwyno ar gyfer dyrannu, oni bai fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud tuag at eu datblygu. Mae hyn yn unol â'r canllawiau yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu⁴, i sicrhau fod modd cyflawni safleoedd a ddynodir yn y CDLIN a bod yna sicrwydd rhesymol fod dyraniadau'n cael eu datblygu yn ystod cyfnod y cynllun. Unwaith y bydd y CDLIN wedi ei fabwysiadu, bydd y CDLI yn peidio â bod yn gynllun datblygu mabwysiedig ac felly ni fydd gan ddyraniadau a gaiff eu cynnwys ynddo unrhyw statws mwyach oni bai eu bod yn cael eu hail-ddyrannu.

⁴ [Llawlyfr Cynlluniau Datblygu](#) Tabl 18 a Tabl 22

- 4.7 Pan fo safleoedd ar ymyl yr anheddiad ac yn ymwthio i gefn gwlad agored, bydd yn briodol yn gyffredinol i symud ffin yr anheddiad yn ôl i eithrio'r dyraniad blaenorol. Mewn rhai achosion, gall dyraniadau blaenorol (yn llawn neu'n rhannol) gael eu hystyried yn safleoedd mewnlenni/a hap addas, ac felly parhau o fewn ffin yr anheddiad, er bod eu statws fel dyraniad yn cael ei ddiddymu. Byddai hyn yn darparu cyfleoedd am ddatblygu ar hap yn y dyfodol yn yr un modd â safleoedd sy'n llwyr o fewn yr ardal adeiledig.
- 4.8 Nid oes unrhyw safleoedd newydd wedi eu cynnig ar gyfer dyraniad o fewn y prif bentrefi (haen 1 neu haen 2) ac felly safleoedd ar hap a safleoedd eithriedig yn y dyfodol fydd sut y bodlonir yr angen o ran tai dros gyfnod y CDLIN. Cafodd dyraniadau tai eu hasesu fel rhai addas i'w cynnwys yn y CDLI blaenorol felly, er na ellir dibynnu arnynt i ddarparu tai yn ystod cyfnod y cynllun, maent yn cael eu hystyried yn gyffredinol fel y lleoliadau mwyaf addas i fodloni'r angen am dai. Mewn rhai achosion mae'n bosibl y byddant yn cael eu cadw o fewn ffin yr anheddiad lle bo'n briodol.
- 4.9 Mae statws dyraniadau blaenorol y CDLI a'u sefyllfa mewn perthynas â ffiniau aneddiadau'r CDLIN wedi eu nodi isod. Mae manylion llawn a'r cyfiawnhad dros ddiddymu neu ail-ddyrannu dyraniadau blaenorol yn y CDLIN i'w gweld yn BP/6.

Dyraniadau tai (gan gynnwys defnydd cymysg)

- 4.10 Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol: Y Gorllewin
- Gerllaw Glanafon, Llanfairfechan – datblygiad wedi'i gwblhau ac o fewn ffin yr anheddiad. Nid oes angen unrhyw newid pellach i ffin yr anheddiad.
 - Dexter Products, Llanfairfechan – Dim cynnydd o ran datblygiad preswyl, fodd bynnag mae'r safle yn bodoli fel datblygiad cyflogaeth ac felly fe fydd yn parhau o fewn ffin yr anheddiad.
 - Adeilad West Coast, Llanfairfechan – mae'r safle wedi derbyn caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl (wedi dod i ben ers hynny). Fel safle cyflogaeth presennol mae'n gorwedd o fewn ffin yr anheddiad waeth beth fo'i statws dyrannu.
 - Oddi ar Ffordd Ysguborwen, Dwygyfylchi – safle ar hap/mewnlenni posibl i'w gadw o fewn ffin yr anheddiad.

- I'r gorllewin o Barc Penmaen, Llanfairfechan – cais cynllunio wedi ei gyflwyno ond dim penderfyniad arno eto, cyfeirnod 0/51305. Cadw'r safle o fewn ffin yr anheddiad fel dyraniad 'yn yr arfaeth'.
- Ffordd Conwy, Penmaenmawr – gwaith adeiladu, cadw o fewn ffin yr anheddiad.
- I'r gogledd o Groesffordd, Dwygyfylchi – wedi'i gwblhau, cadw o fewn ffin yr anheddiad.

4.11 Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol: Y Creuddyn

- Plas yn Dre, Llandudno – wedi'i gwblhau. Yn dod o fewn ardal adeiledig ac felly o fewn ffin yr anheddiad waeth beth fo'i statws dyrannu.
- Clwb Cymdeithasol/Clwb Ieuencid - wedi ei gwblhau yn rhannol. Yn dod o fewn yr ardal adeiledig ac felly o fewn ffin yr anheddiad waeth beth fo'i statws dyrannu.
- Woodland, Cyffordd Llandudno – wedi ei gwblhau, cadw o fewn ffin yr anheddiad.
- Plas Penrhyn, Bae Penrhyn – gwaith adeiladu, cadw o fewn ffin yr anheddiad.
- Oddi ar Lôn Derwen, Bae Penrhyn – cais cynllunio wedi ei gyflwyno ond dim penderfyniad arno eto, cyfeirnod 0/51939. Cadw'r safle o fewn ffin yr anheddiad fel dyraniad 'yn yr arfaeth'.
- Nant y Gamar Road, Llandudno – gwaith adeiladu, cadw o fewn ffin yr anheddiad.
- Ffordd Henryd, Gyffin, Conwy – gwaith adeiladu, cadw o fewn ffin yr anheddiad.
- Esgyryn, Cyffordd Llandudno – wedi ei gwblhau, cadw o fewn ffin yr anheddiad.
- Top Llan Road, Glan Conwy – gwaith adeiladu, cadw o fewn ffin yr anheddiad.

4.12 Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol: Y Canol

- Fferm Glyn, Bae Colwyn – wedi ei gwblhau'n rhannol ac wedi ei gadw o fewn ffin yr anheddiad. Cais cynllunio wedi ei gyflwyno ond dim penderfyniad eto ar weddill y safle, cyfeirnod 0/52376. Cadw'r safle o fewn ffin yr anheddiad fel dyraniad 'yn yr arfaeth'.
- Fferm Dinarth Hall, Llandrillo-yn-Rhos – dim cynnydd. Mae rhan ddwyreiniol y safle yn safle mewnlenni rhesymegol i'w gadw o fewn ffin yr anheddiad; y gweddill i'w symud o ffin yr anheddiad.
- Tŷ Mawr, Hen Golwyn – cynnydd cyfyngedig fu o ran y safle hwn, gan arwain at beidio â'i ail-ddyrannu yn y CDLIN am y rhesymau a nodir yn BP/6. Wedi ei dynnu o ffin yr anheddiad.

- Ysgol y Graig, Hen Golwyn – dim cynnydd. Mae o fewn yr ardal adeiledig ac felly o fewn ffin yr anheddiad waeth beth fo'i statws dyrannu.
- Dinerth Road, Llandrillo-yn-Rhos – ail ddyrannu yn y CDLIN. Mae o fewn yr ardal adeiledig ac felly o fewn ffin yr anheddiad waeth beth fo'i statws dyrannu.
- Cyfnewidfa BT, Bae Colwyn – dim cynnydd, ond fel safle cyflogaeth presennol mae'n gorwedd o fewn ffin yr anheddiad waeth beth fo'i statws dyrannu.
- Lawson Road, Bae Colwyn – wedi ei gwblhau. Mae o fewn yr ardal adeiledig ac felly o fewn ffin yr anheddiad waeth beth fo'i statws dyrannu.
- Llysfaen Road, Hen Golwyn – dim cynnydd ond mae o fewn yr ardal adeiledig ac felly o fewn ffin yr anheddiad waeth beth fo'i statws dyrannu.
- Yn agos i Ysgol Cynfran, Llysfaen – cadw o fewn ffin yr anheddiad fel safle mewnlenwi/ar hap posibl.
- Gerllaw y cyn reithordy, Llysfaen – cadw o fewn ffin yr anheddiad fel safle mewnlenwi/ar hap posibl.

4.13 Ardal Strategaeth Datblygu Arfordirol: Y Dwyrain

- De ddwyrain Abergele – mae rhan o'r safle eisoes wedi ei ddatblygu, mae rhagor o dir yn destun cais cynllunio 0/51041 (dim penderfyniad eto), ac mae i'w gadw o fewn ffin yr anheddiad fel dyraniad 'yn yr arfaeth'. Mae gweddill y safle i'w dynnu o ffin yr anheddiad.
- Parc Busnes Abergele – wedi ei gwblhau, i'w gadw o fewn ffin yr anheddiad.
- Llanfair Road, Abergele – wedi ei gwblhau, i'w gadw o fewn ffin yr anheddiad.
- Ffordd Pencoed, Llanddulas – ni fu cynnydd o ran y safle hwn hyd yma. Mae hwn yn ymwthio i gefn gwlad agored ac nid yw'n safle mewnlenwi rhesymegol, felly ei symud o ffin yr anheddiad.
- I'r de o The Mill, Llanddulas – safle ymgeisiol y CDLIN wedi ei dynnu'n ôl gan y tîrfeddiannwr; ei dynnu o ffin yr anheddiad.

4.14 Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig

- Bryn Hyfryd, Llanrwst – caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ran, wedi ei gadw o fewn ffin yr anheddiad fel safle a ymrwymwyd. Cadw rhan ogleddol y safle o fewn ffin yr anheddiad fel safle mewnlenwi/ar hap posibl; tynnu'r gweddill o ffin yr anheddiad.

- Safle A, i'r gogledd o Lanrwst – dim cynnydd o ran datblygu'r safle, ar wahân i ganiatâd a roddwyd am annedd unigol. Tynnu o ffin yr anheddiad.
- Safle C i'r gogledd ddwyrain o Lanrwst – dim cynnydd wedi ei wneud o ran datblygu'r safle, a chaniatâd ar gyfer ehangu busnes safle carafanau wedi cyfaddawdu datblygiad preswyl yn rhannol. Tynnu o ffin yr anheddiad.
- Ffordd Llanelwy, Betws-yn-Rhos - cadw o fewn ffin yr anheddiad fel safle mewnlenni/ar hap posibl.
- Minafon, Betws-yn-Rhos – dim cynnydd o ran y safle – tynnu o ffin yr anheddiad.
- Tan y Ffordd, Dolgarrog – caniatâd cynllunio wedi ei roi a'i weithredu. Safle wedi ei gadw o fewn ffin yr anheddiad.
- Oddi ar Heol Martin, Eglwysbach - cadw o fewn ffin yr anheddiad fel safle mewnlenni/ar hap posibl.
- The Smithy, Llanfair Talhaearn – cadw rhan ogleddol y safle o fewn ffin yr anheddiad fel safle mewnlenni/ar hap posibl; tynnu'r gweddill o ffin yr anheddiad.
- I'r gogledd o Lansannan – dim cynnydd o ran datblygu; tynnu o ffin yr anheddiad.
- Coed Digain, Llangernyw – wedi ei ddatblygu'n rhannol. Cadw o fewn ffin yr anheddiad fel safle mewnlenni/ar hap posibl.
- Cyn waith alwminiwm Dolgarrog – mae ailddatblygu'r safle wedi ei gwblhau (Adventure Parc Snowdonia) heb ddatblygiad preswyl. Tynnu o ffin yr anheddiad.
- Tir sy'n wynebu'r B5105, Cerrigydrudion – dim cynnydd wedi ei wneud o ran datblygu; tynnu o ffin yr anheddiad.

Dyraniadau eraill

4.15 Dyraniadau cyflogaeth

- I'r gogledd ddwyrain o'r hen iard nwyddau yng Nghyffordd Llandudno (dyraniad cyflogaeth) – nid yw'r safle hwn wedi ei ddatblygu ond mae o fewn ardal adeiledig Cyffordd Llandudno ac felly o fewn ffin yr anheddiad waeth beth fo'i statws dyrannu.
- Penmaen Road, Conwy (dyraniad cyflogaeth) – wedi ei ddatblygu'n rhannol. Cadw o fewn ffin yr anheddiad.
- Yr hen iard nwyddau, Llandudno (dyraniad cyflogaeth), caniatâd cynllunio wedi ei roi yn rhannol ar gyfer datblygiad preswyl. O fewn ardal adeiledig Llandudno ac felly o fewn ffin yr anheddiad waeth beth fo'i statws dyrannu.

- Gorsaf betrol Orme View, Dwygyfylchi (dyraniad cyflogaeth) – dim cynnydd o ran datblygu'r safle, fodd bynnag mae tu hwnt i ffin anheddiad Dwygyfylchi. Nid oes unrhyw effaith ar ffin yr anheddiad waeth beth fo'r statws dyrannu.
- Tir ger Neuadd Goffa, Dolgarrog (dyraniad cyflogaeth) – nid yw'r safle wedi ei ddyrannu mwyach, fodd bynnag fel safle a ddatblygwyd yn flaenorol sy'n agos at ardal adeiledig y pentref mae wedi ei gadw o fewn ffin yr anheddiad.
- Iard y Stag, Llangernyw (dyraniad cyflogaeth) – nid yw'r safle hwn wedi ei ddatblygu ond mae o fewn ardal adeiledig Llangernyw ac felly o fewn ffin yr anheddiad waeth beth fo'i statws dyrannu.
- Tir yn Llansannan (dyraniad cyflogaeth) – nid yw'r safle hwn wedi ei ddatblygu ac ni fydd yn cael ei ail-ddyrannu yn y CDLIN, fodd bynnag mae y tu allan i ffin anheddiad Llansannan ar Fap Cynigion y CDLI ac felly nid oedd angen unrhyw newid i ffin yr anheddiad.
- Parc Busnes Abergele (dyraniad cyflogaeth) – mae'r safle hwn yn dir cyflogaeth a ddiogelir yn y CDLIN. Mae o fewn ardal adeiledig Abergele ac felly o fewn ffin yr anheddiad waeth beth fo'i statws dyrannu.

4.16 Nid oedd y dyraniadau canlynol o fewn ffin anheddiad y CDLI ac felly nid oes angen unrhyw newidiadau i ffin yr anheddiad waeth beth fo'u statws yn y CDLIN. Maent wedi eu rhestru yma er mwyn cyflwyno'r holl wybodaeth.

- Hen safle tirlenwi, Gofer, Abergele (gwastraff)
- Chwarel Llanddulas (gwastraff)
- Ger mynwent Penmaenmawr (tir claddu)
- Ger mynwent Llanrwst (tir claddu)
- I'r gorllewin o Gwrych Lodge, Abergele (rhandiroedd)

4.17 Bydd safleoedd sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio neu sydd wedi eu datblygu yn parhau o fewn ffin yr anheddiad. Hefyd bydd safleoedd a fyddai fel arall wedi eu hamgylchynu yn llwyr neu'n rhannol gan ffiniau aneddiadau ac a fyddai'n ffurfio safle mewnlenni rhesymegol yn parhau yn gyffredinol o fewn ffin yr anheddiad. Er nad ydynt wedi eu dyrannu bellach, fe allant barhau i gael eu cyflwyno fel safleoedd ar hap yn y dyfodol.

Mannau hamdden

- 4.18 Mae ffiniau aneddiadau yn diffinio ardaloedd adeiledig datblygiad preswyl a chyflogaeth/masnachol mewn aneddiadau mwy. Ni cheir unrhyw fudd yn nhermau cynllunio o gynnwys mannau hamdden o fewn ffiniau aneddiadau. Pan fo'n briodol gall eithrio mannau hamdden o ffiniau aneddiadau helpu i ddiogelu'r tir ar gyfer y diben hwn ac osgoi pwysau yn cystadlu am ddefnydd preswyl. Ni ddylai darnau arwyddocaol o dir amaethyddol ddod o fewn ffiniau aneddiadau, er y gallai fod yn briodol i gynnwys ardaloedd bach o fewnlenwi sydd â'r potensial o gael eu cyflwyno fel safleoedd ar hap.
- 4.19 Bydd mannau hamdden sydd wedi eu hamgylchynu yn llwyr gan aneddiadau adeiledig yn parhau o fewn ffiniau aneddiadau. Fodd bynnag pan fo'r defnyddiau hyn ar ymyl aneddiadau maent yn gyffredinol wedi eu tynnu o'r ffiniau aneddiadau.

Dyraniadau newydd arfaethedig y CDLIN

- 4.20 Pan fo angen, bydd ffiniau aneddiadau yn cael eu symud i ddarparu ar gyfer dyraniadau preswyl newydd yn y CDLIN. Ni fydd safleoedd cyflogaeth newydd neu addysg yn cael eu cynnwys o fewn ffiniau'r aneddiadau oni bai y byddent fel arall yn gorwedd yn llwyr o fewn yr anheddiad. Caiff safleoedd cyflogaeth sefydledig eu cynnwys o fewn ffin yr anheddiad yn gyffredinol, ond er mwyn diogelu'r defnydd arfaethedig ac osgoi pwysau yn cystadlu ar gyfer defnydd preswyl, bydd dyraniadau cyflogaeth newydd yn gyffredinol yn parhau y tu allan i ffiniau aneddiadau tan ar ôl i'r safleoedd gael eu datblygu. Bydd ffiniau aneddiadau yn cael eu diwygio i ddarparu ar gyfer dyraniadau newydd yn y lleoliadau canlynol:

- Caeffynnon, Llanfairfechan (ac eithrio'r tir sydd wedi ei ddyrannu ar gyfer ysgol newydd)
- Pentywyn Road a Bryn Lupus Road, Llanrhos
- Queens Road, Llandudno
- Fferm Peulwys, Hen Golwyn
- Penloyn, Llanrwst

Tir wedi ei ddatblygu a safleoedd wedi eu hymrwymo

4.21 Mae nifer o safleoedd y tu allan i ffiniau aneddiadau wedi cael caniatâd neu wedi eu datblygu ers mabwysiadu'r CDLI. Mae'r rhain yn gyffredinol wedi cael caniatâd (weithiau ar apêl) o ganlyniad i ddiffyg yn y cyflenwad o dir ar gyfer tai, fel safleoedd eithriedig tai fforddiadwy neu fel arall i helpu i fodloni targedau cyflawni tai fforddiadwy. Mae'r rhain nawr yn ffurfio rhan o'r anheddiad cyffiniol ac felly bydd ffiniau'r anheddiad yn cael eu symud yn unol â hynny i gynnwys y safleoedd canlynol:

- Y Bluen Goch, Dwygyfylchi
- Oakwood, Ffordd Bwlch Sychnant, Conwy
- Parc Pentywyn, Pentywyn Road, Cyffordd Llandudno
- Bryn y Môr, Dolwen Road, Hen Golwyn
- Parc Eliau, Dolwen Road, Hen Golwyn
- Parc Afon Bach, Llanrwst

4.22 Mewn lleoedd eraill mae rhai datblygiadau sefydledig yn hanesyddol wedi eu heithrio o ffiniau aneddiadau, ond mae'r adolygiad diweddaraf yn dangos y dylent nawr gael eu cynnwys.

- Yn flaenorol mae Bryn Gynog yn Gyffin wedi ei eithrio o ffin yr anheddiad ar y sail ei fod yn safle carafanau, ac nid tai parhaol. Mae'r carafanau fodd bynnag ar gyfer defnydd preswyl ac mae'r safle wedi ei amgylchynu'n llwyr bron gan ffin anheddiad Conwy (fel y cafodd ei ymestyn ar gyfer y CDLI presennol), ac felly mae nawr yn rhesymegol i gynnwys y safle carafanau o fewn ffin yr anheddiad.
- Mae Castell wedi ei ddiffinio o fewn yr hierarchaeth aneddiadau fel rhan o Brif Bentref Haen 2 gyda Tal-y-bont, ond nid yw wedi cael ffin anheddiad yn flaenorol; mae hyn wedi ei gywiro.

4.23 Mae nifer o ddatblygiadau eraill ar raddfa fach ac anheddau unigol wedi eu cynnwys fel rhan o'r broses 'dacluso' y cyfeirir ati ym mharagraff 4.4 ac nid ydynt yn cael eu nodi'n unigol yma.

Cyfleoedd ar hap posibl

- 4.24 Mae cyflenwad tai y CDLIN yn cynnwys rhagdybiaeth fod safleoedd ar hap (nad ydynt wedi eu dyrannu) yn dod ymlaen ar gyfer eu datblygu drwy Gyfnod y Cynllun. Mae disgwyl i nifer o'r rhain fod o ailddatblygu tir a ddatblygwyd yn flaenorol o fewn aneddiadau, ond gall rhai fod ar ymylon aneddiadau presennol. Mae canllawiau cynllunio presennol yn ei gwneud yn glir y dylai ffiniau aneddiadau gael eu tynnu i fod yn briodol ar gyfer y lefel o ddatblygiad ar hap a ragwelir mewn anheddiad⁵. Mae felly yn briodol fod y CDLIN yn gwneud darpariaeth addas ar gyfer safleoedd ar hap sydd ar raddfa fach drwy beidio â thynnu ffiniau aneddiadau yn rhy dynn o amgylch aneddiadau presennol. Mae hyn yn hynod o bwysig o ran yr aneddiadau llai lle nad yw'r CDLIN yn nodi dyraniadau penodol, ond lle mae'r angen yn lleol am dai yn parhau ar safleoedd priodol.
- 4.25 Cafodd safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLI eu nodi'n flaenorol fel safleoedd addas ar gyfer datblygu. Er na fydd dyraniadau lle bu tanddatblygiad yn cael eu symud ymlaen yn awtomatig fel dyraniadau yn y CDLIN, mae rhai dyraniadau blaenorol wedi eu cadw o fewn ffin yr anheddiad i helpu i ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad mewnlenni/ar hap, fel yr eglurir uchod.
- 4.26 Tra bod lleoli o fewn ffin yr anheddiad yn cefnogi egwyddor gyffredinol datblygu, nid yw'r safleoedd hyn wedi eu hasesu'n fanwl am eu cynaliadwyedd yn yr un modd â safleoedd a ddyrannwyd. Bydd unrhyw ddatblygiad yn y lleoliadau hyn yn destun proses gynllunio lawn ac fe fyddent yn cael eu hasesu ar eu rhinweddau yn erbyn yr holl ystyriaethau perthnasol.
- 4.27 Yn ystod proses y Safleoedd Ymgeisiol, cafodd nifer o safleoedd eu cyflwyno sy'n rhy fach i'w hystyried ar gyfer eu dyrannu, neu ddim yn angenrheidiol i fodloni'r angen am dai yn y CDLIN ond a allai fod yn addas mewn egwyddor ar gyfer datblygu. Dim ond os y gallent ddarparu ar gyfer o leiaf 10 annedd yr oedd safleoedd yn cael eu hystyried. Mae'r CDLIN yn cynnwys targed o ran dwyster o 30 annedd yr hectar a fyddai'n arwain at isafswm maint ar gyfer dyraniadau arfaethedig o 0.3 hectar. Gallai

⁵ [Llawlyfr Cynlluniau Datblygu](#) paragraff 5.20

anwybyddu'r safleoedd hyn o ganlyniad i'w maint arwain at safleoedd sydd o bosibl yn addas yn cael eu gadael y tu allan i ffin yr anheddiad.

4.28 Cafodd asesiad o'r holl safleoedd ymgeisiol ei wneud, yn arbennig y rhai hynny a oedd yn llai na 0.3 hectar, i ystyried p'un ai a ddylent gael eu cynnwys o fewn ffin yr anheddiad. Cafodd y rhai hynny yr ystyriwyd eu bod yn addas fel safleoedd mewnlenni/ar hap eu cynnwys o fewn ffin yr anheddiad. Mae rhagor o wybodaeth am yr ystyriaeth a roddwyd i gynnwys safleoedd ymgeisiol o fewn ffiniau aneddiadau ar gael yn Atodiad 3.

4.29 Roedd y safleoedd yn gyffredinol yn rhannu'n bedwar math:

- Safleoedd sydd wedi eu hamgylchynu gan yr ardal adeiledig ac a fyddai o fewn ffin yr anheddiad er gwaethaf asesiad fel rhan o'r broses hon. Nid oes angen unrhyw newidiadau i ffin yr anheddiad er mwyn darparu o ran y safle.
- Safleoedd sydd mewn aneddiadau llai (pentrefi bychain neu bentrefannau) neu yng nghefn gwlad agored lle nad oes yna ffin anheddiad. Nid oes angen unrhyw newidiadau i ffin yr anheddiad, p'un ai y gall y safleoedd fod yn addas ar gyfer datblygu ai peidio.
- Safleoedd sy'n agos at ffiniau aneddiadau presennol neu'n cydffinio â nhw ond a gaiff eu hystyried yn anaddas ar gyfer eu cynnwys yn ffin yr anheddiad. Gall hyn fod o ganlyniad i'r ffaith fod y safle yn ymestyniad gormodol i gefn gwlad agored, wedi ei gyfyngu (e.e. risg llifogydd) neu wedi ei ddiogelu gan ddynodiad fel y Lletem Las neu'n Ardal Tirwedd Arbennig. Ni chynigir unrhyw newidiadau i ffin yr anheddiad.
- Safleoedd sy'n agos at ffin bresennol yr anheddiad neu'n gydffiniol ac a gaiff eu hystyried yn safleoedd rhesymegol ar gyfer eu cynnwys. Fe allant eisoes fod yn dir wedi ei ddatblygu/cwrtil neu yn safleoedd mewnlenni/terfynu heb eu cyfyngu sydd â'r potensial ar gyfer datblygu ar hap. Bydd ffin yr anheddiad yn cael ei diwygio i gynnwys y safleoedd hyn.

4.30 Mewn mannau eraill mae rhai safleoedd mewnlenni bach neu safleoedd eraill addas ar hap wedi eu cynnwys o fewn y ffiniau aneddiadau fel rhan o'r broses 'dacluso' y cyfeirir ati ym mharagraff 5.3 ac nid ydynt wedi eu nodi'n unigol.

5 Newidiadau cysylltiedig i ddynodiadau eraill

- 5.1 Ffiniau aneddiadau yw un o'r prif fecanweithiau polisi yn y CDLIN i reoli lleoliad datblygiad. Mae'r Lletemau Glas, Ardaloedd Tirwedd Arbennig, y Parth Arfordirol a Pharthau Diogelu Mwynau a Gwastraff a Pharthau Clustogi i gyd wedi eu dangos ar Fap Cynigion y CDLIN ac maent yn gwasanaethu i gyfyngu ar ddatblygiad amhriodol o fewn yr ardaloedd hyn. Caiff egwyddor datblygu ei dderbyn yn gyffredinol o fewn ffiniau aneddiadau, ond mae datblygiad i raddau amrywiol yn anghyson gydag amcanion y dynodiadau eraill a restrir uchod.
- 5.2 Mae tacluso ffiniau aneddiadau, i'w diweddarau yn unol â mapio diweddaraf yr Arolwg Ordnans a nodweddion ffisegol ar y tir, yn broses sydd hefyd yn berthnasol i ddynodiadau eraill y CDLIN sy'n ceisio cyfyngu tai a ffurfiau eraill o ddatblygu. Mae mân ddiwygiadau i ffiniau aneddiadau mewn rhai achosion wedi bod ar y cyd â newidiadau cyfatebol i ddynodiadau perthnasol eraill sydd â ffiniau ochr yn ochr â'r ffiniau aneddiadau. Newidiadau bach iawn yw'r rhain yn bennaf i ddod â ffiniau yn unol â data OS MasterMap neu i gynnwys/hepgor anheddau unigol heb unrhyw effaith ar swyddogaeth gyffredinol y dynodiad, er bod rhai wedi bod yn fwy ac maent yn cael eu nodi'n unigol isod.

Lletemau Glas

- 5.3 Caiff lletemau glas eu nodi yn y CDLIN i'r dibenion fel nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru⁶. Fel yr eglurir ym mharagraff 3.68 Polisi Cynllunio Cymru, mae Lletemau Glas yn darparu clustog o amgylch aneddiadau pan fo angen, ac maent yn cael eu hadolygu fel rhan o broses y CDLI.

3.68 Mae lletemau glas yn ddynodiadau lleol â'r un pwrpas yn eu hanfod â Lleiniau Glas. Fe allant gael eu defnyddio i ddarparu clustog rhwng ymyl yr anheddiad a dynodiadau statudol gan ddiogelu golygfeydd pwysig i mewn i'r ardal ac allan ohoni. Dylai lletemau glas gael eu cynnig a dylent fod yn destun adolygiad fel rhan o broses y CDLI.

⁶ [Polisi Cynllunio Cymru](#), rhifyn 12 paragraffau 3.64-3.78

- 5.4 Mae tir o fewn lletemau glas yn cael ei amddiffyn rhag datblygu amhriodol yn unol â pholisi'r CDLIN NE/5:

NE/5 Lletemau Glas

1. Mae Lletemau Glas wedi'u dynodi rhwng yr aneddiadau canlynol:
 - a. Dwygyfylchi a Phenmaenmawr
 - b. Deganwy, Cyffordd Llandudno a Llanrhos
 - c. Llandudno a Craigside
 - d. Bae Penrhyn a Llandrillo-yn-Rhos
 - e. Mochdre a Bae Colwyn
 - f. Cyffordd Llandudno a Mochdre, a Glan Conwy
 - g. Bryn-y-maen a Bae Colwyn
 - h. Llanelian a Hen Golwyn
 - i. Rhwng Coed Coch a Peulwys Lane
 - j. Hen Golwyn a Llysfaen
 - k. Rhyd-y-foel, Llanddulas ac Abergele
 - l. Towyn a Phensarn
2. O fewn y Lletemau Glas dynodedig, dim ond os yw'n cynnal natur agored a chymeriad y dirwedd y bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu, oni bai fod y cynnig yn cynnwys datblygu priodol o fewn y Lletem Las fel y nodwyd yn y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r canllawiau, ac yn ddibynnol ar gydymffurfio gyda'r polisiau Creu Lleodedd Cynaliadwy sydd wedi eu dylunio i ddiogelu'r amgylchedd a chymeriad y dirwedd.


- 5.5 Mae'r amddiffyniad a roddir gan y Lletem Las yn anghydnaws â chynnwys tir o fewn ffin yr anheddiad. Mae tacluso ychydig ar ffiniau aneddiadau ar draws Ardal Cynllun y CDLIN mewn rhai achosion wedi arwain at yr angen i un ai ymestyn neu ddiddymu'r Lletem Las. Mae hyn yn sicrhau fod y dynodiad yn gyson gyda ffiniau aneddiadau ac yn briodol i fodloni'r diben fel nodir yn y CDLIN a Pholisi Cynllunio Cymru.
- 5.6 Mae adolygiad llawn o Letemau Glas wedi digwydd fel rhan o broses y CDLIN⁷. Mae'r Papur Cefndir hwn yn cyfiawnhau ac yn egluro'r newidiadau sylweddol sydd eu hangen i Letemau Glas. Mae'r rhain yn ymwneud yn gyffredinol â diddymu dynodiad

⁷Y CDLIN Papur Cefndir BP/29: Adolygiad Lletem Las


Lletem Las i ddarparu ar gyfer dyraniadau newydd y CDLIN. Mewn rhai lleoliadau, mae'r ffaith na fu datblygiad ar gyn ddyraniadau yn y CDLI yn rhoi'r cyfle i ymestyn y Lletem Las, fel nodir isod:

- Dyraniadau Llanddulas – mae'r safleoedd hyn wedi eu tynnu o'r ffiniau aneddiadau am y rhesymau a nodwyd ym mhennod 4. Maent wedi eu hychwanegu at y Lletem Las, a ddiddymwyd ar gyfer dyrannu'r safleoedd hyn yn y CDLI mabwysiedig (2018-33).
- Fferm Dinarth Hall – mae rhan o'r safle wedi ei dynnu o'r ffiniau aneddiadau am y rhesymau a nodwyd ym mhennod 4. Mae rhan orllewinol y safle wedi ei ychwanegu at y dynodiad Lletem Las. Cafodd y Lletem Las ei ddiwygio i ganiatáu ar gyfer dyraniad y safleoedd hyn yn y CDLI mabwysiedig (2007-22).

Ffigur 2: Ffin yr anheddiad, Lletem Las a dyraniadau tai yn Llanddulas



Ffigur 3: Ffin yr anheddiad, Lletem Las a dyraniadau tai yn Fferm Dinarth Hall, Llandrillo-yn-Rhos,



Ardaloedd Tirwedd Arbennig

- 5.7 Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi eu nodi er mwyn diogelu cymeriad y dirwedd yn yr ardaloedd hyn, yn unol â pholisi'r CDLIN NE/4. Tra nad yw'r polisi yn gwahardd datblygiad o fewn yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig, mae gofyn i unrhyw ddatblygiad o fewn yr ardaloedd dynodedig hyn roi ystyriaeth arbennig i'w effaith gweledol ar y dirwedd.

NE/4 diogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig


1. Bydd pwys sylweddol yn cael ei roi ar warchod, gwella a rheoli cymeriad, ymddangosiad ac ansawdd yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig dynodedig a'u lleoliad wrth asesu a chydbwyso cynigion datblygu o fewn neu gerllaw'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig, fel y dangosir ar y Map Cynigion ac a restrir isod:
 - a. Y Gogarth a Phenrhyn y Creuddyn
 - b. Dyffryn Conwy
 - c. Cefn gwlad Abergele
 - d. Dyffrynnoedd Elwy ac Aled
 - e. Mynydd Hiraethog
 - f. Cerrigydrudion a choridor yr A5
2. Er mwyn gwarchod rhinweddau'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig neu eu lleoliad, bydd cynigion datblygu yn rhoi ystyriaeth arbennig i gadw neu wella cymeriad, ymddangosiad ac ansawdd pob Ardal Tirwedd Arbennig. Ni fydd datblygiad sy'n methu integreiddio yn foddhaol i'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig neu ddiogelu eu lleoliad yn cael ei ganiatáu. Mewn achosion priodol bydd yr ACLI yn gofyn am gyflwyno Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol i ddangos effaith y cynigion datblygu y tu mewn neu'r tu allan i'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig.

- 5.8 Mae'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn gyffredinol yr un fath â'r rhai hynny a ddynodwyd yn y CDLI mabwysiedig (2007-22) fel yr adolygwyd ar gyfer y CDLIN⁸. Mae rhai aneddiadau gwledig yn gorwedd yn rhannol neu'n llwyr o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Mewn ardaloedd eraill, lle mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig gerllaw ffiniau aneddiadau ond y tu allan iddynt, mae mân ddiwygiadau i ffin yr anheddiad wedi arwain

⁸ Papur Cefndir BP/32 y CDLIN: Ardaloedd Tirwedd Arbennig

at addasu cyfatebol i'r Ardal Tirwedd Arbennig er mwyn cysondeb. Fe wnaed newid mwy sylweddol yn Gyffin, Conwy i adlewyrchu ymestyn ffin yr anheddiad i gynnwys maes carafanau Bryn Gynog.

Ffigur 4: Ffin yr anheddiad/Ardal Tirwedd Arbennig yn Gyffin, Conwy



Parth Arfordirol

5.9 Mae'r Parth Arfordirol yn gwarchod cynefinoedd a thirwedd y draethlin a thir cysylltiedig sydd o fewn Ardal Cynllun CDLIN Conwy, yn unol â pholisi NE/10 y CDLIN. Yn gyffredinol nid yw wedi newid o'r hyn a ddynodwyd yn y CDLI mabwysiedig ar gyfer 2007-22.

NE/10 y Parth Arfordirol, newid arfordirol a'r Cynllun Rheoli Traethlin.

Mae'r Parth Arfordirol wedi ei ddiffinio ar y map cynigion. Dim ond dan yr amgylchiadau isod y bydd datblygiad yn y Parth Arfordirol, y tu allan i ffiniau anheddiad, yn cael ei ganiatáu. Pan fydd datblygiad yn:


- Cyd-fynd ag amcanion y Cynllun Rheoli Traethlin drwy gydol oes y prosiect neu'r datblygiad.

- b. Yn gofyn am leoliad arfordirol yn benodol;
- c. Yn cyfrannu at gadwraeth a gwella bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystem, fel y diffinnir yn Neddf Amgylchedd (Cymru) 2016 a gwella isadeiledd gwyrdd a llwybrau teithio llesol lle mae'n briodol yn unol â pholisïau NE/6, NE/7 a NE/8;
- d. Lle nad yw'n effeithio'n andwyol ar natur agored y parth na gwerth y parth o ran gwarchod byd natur;
- e. Lle nad yw'n tynnu oddi ar y gwerth i dwristiaeth neu gyfleusterau;
- f. Lle nad yw'n ymyrryd gyda phrosesau arfordirol naturiol neu'n atal swyddogaeth unrhyw strwythurau amddiffyn arfordirol presennol neu Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol yn unol â pholisi NE/2;
- g. Yn cadw ac yn gwella treftadaeth ddiwylliannol cymunedau arfordirol Conwy ac yn hyrwyddo'r Gymraeg yn unol â pholisi PL/7; ac yn
- h. Cyfrannu at y trawsnewid tuag at gyflawni datblygiad economaidd cynaliadwy, carbon isel, gan leihau allyriadau carbon a chynyddu gwytnwch pobl, lleoedd a'r amgylchedd i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd.


5.10 Gan nad yw'r polisi hwn yn cyflawni unrhyw swyddogaeth o fewn ffiniau aneddiadau, er mwyn eglurder mae'r dynodiad Parth Arfordirol wedi ei docio i gynnwys ardaloedd y tu allan i ffiniau anheddiad yn unig. Mae hyn wedi arwain at fân addasiadau mewn nifer o ardaloedd i adlewyrchu ffin anheddiad diweddaraf y CDLIN. Fe wnaed mwy o newidiadau sylweddol yn y lleoliadau canlynol, lle'r oedd yna orgyffwrdd mawr rhwng y Parth Arfordirol a Ffin yr Anheddiad.

- Llandudno – Pafiliwn y Pier, y Grand Hotel a'r promenâd
- Deganwy – Marine Crescent
- Cei Deganwy
- Pentref marina Conwy


Ffigur 5: Llandudno: Pafiliwn y Pier, y Grand Hotel a'r promenâd



Ffigur 6: Deganwy: Marine Crescent




Ffigur 7: Cei Deganwy



Dynodiadau Mwynau a Gwastraff

- 5.11 Fe wnaed yr holl newidiadau i'r haenau mwynau a gwastraff ar Fapiau Cynigion y CDLIN yn dilyn trafodaeth gyda'r tîm Mwynau a Gwastraff rhanbarthol. Mae'r broses ar gyfer asesu'r haenau i'w cynnwys ar y Map Cynigion i'w gweld ym Mhapur Cefndir y CDLIN BP/37. Pan fo ffiniau aneddiadau yn croestorri gyda pharthau clustogi neu ddynodiadau wedi eu diogelu yn yr adran fwynau a gwastraff, mae ardaloedd o fewn ffiniau'r anheddiad fel arfer yn cael eu heithrio o'r dynodiad. Y rheswm am hyn yw oherwydd hyd yn oed heb ffin yr anheddiad, fel y nodwyd ar y map cynigion, fe fyddai'n gyffredinol yn anymarferol ac yn annymunol i weithio gyda mwynau oddi tan neu'n agos at anheddau.
- 5.12 Mae nifer o ddynodiadau gwahanol yn gorwedd o fewn y grŵp hwn; Parth Clustogi Chwarel, Tywod a Graean wedi'i Ddiogelu, Creigiau Caled wedi'u Diogelu. Fe wnaed mân ddiwygiadau i'r holl haenau lle maent yn rhyngweithio gyda ffiniau'r aneddiadau, ond maent i raddau helaeth yn ddibwys. Fe wnaed newid mwy sylweddol i dynnu'r dynodiad Tywod a Graean wedi'i Ddiogelu yn Gyffin, Conwy. Mae hyn yn adlewyrchu ffin yr anheddiad sydd wedi ei ymestyn a'r safle carafanau ym Mryn Gynog, a'r anheddau gwasgaredig niferus ar hyd Ffordd Hendre a Ffordd Henryd.

Ffigur 8: Ffin yr anheddiad a dynodiadau tywod a graean wedi eu diogelu yn Gyffin, Conwy



Atodiad 1: Y Cyfleusterau a'r Gwasanaethau ym mhob anheddiad.

Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Anheddiad	Cyfleusterau cymunedol	Siopau a gwasanaethau	Cyfleusterau meddygol	Addysg	Cyfleoedd cyflogaeth	Cludiant cyhoeddus	Cyfanswm
Abergele / Pensarn	✓✓	✓✓	✓	✓✓	✓✓	✓✓	11
Bae Colwyn	✓✓	✓✓	✓	✓✓	✓✓	✓✓	11
Conwy	✓✓	✓✓	✓	✓✓	✓✓	✓✓	11
Deganwy / Llanrhos	✓✓	✓✓	✓	✓	✓✓	✓✓	10
Llandudno	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	✓✓	12
Cyffordd Llandudno	✓✓	✓✓	X	✓	✓✓	✓✓	9
Llanfairfechan	✓✓	✓✓	✓	✓	✓✓	✓✓	9
Llanrwst	✓✓	✓✓	✓	✓✓	✓✓	✓✓	11
Mochdre	✓✓	✓✓	X	✓	✓✓	✓✓	9
Penmaenmawr	✓✓	✓✓	X	✓	✓✓	✓✓	8
Bae Penrhyn / Ochr y Penrhyn	✓✓	✓✓	✓	✓✓	✓✓	✓✓	10
Towyn / Bae Cinmel	✓✓	✓✓	X	✓	✓✓	✓✓	9
Glan Conwy	✓✓	✓✓	✓	✓	✓	✓✓	8
Llanddulas	✓✓	✓✓	X	✓	✓	✓	6
Dwygyfylchi	✓✓	✓✓	X	✓	✓	✓	6
Betws-yn-Rhos	✓✓	✓	X	✓	✓	X	5
Cerrigydrudion	✓✓	✓	X	✓	X	✓	5
Dolgarrog*	✓	✓✓	X	✓	✓	✓	5
Eglwysbach	✓✓	X	X	✓	X	✓	4
Llanfair Talhaearn	✓✓	✓	✓	✓	X	X	5
Llangernyw	✓✓	✓	X	✓	X	X	4
Llansannan	✓	✓	X	✓	✓	X	4
Llysfaen	✓	✓✓	X	✓	X	✓	4
Trefriw*	✓✓	✓✓	X	X	X	✓	4
Tal-y-bont / Castell	✓✓	✓	X	X	X	✓	4
Bryn Pydew	✓	X	X	X	X	X	1
Glanwydden	✓	X	X	X	X	X	1
Groes	X	X	X	X	X	X	0
Henryd	X	X	X	✓	X	X	1
Llanbedr y Cennin	✓	X	X	X	X	X	1

Anheddiad	Cyfleusterau cymunedol	Siopau a gwasanaethau	Cyfleusterau meddygol	Addysg	Cyfleoedd cyflogaeth	Cludiant cyhoeddus	Cyfanswm
Llanddoded	X	X	X	✓	X	X	1
Llanelian	✓	X	X	X	X	X	1
Llangwm	X	X	X	X	X	X	0
Llanefydd	✓	X	X	X	X	X	1
Pentrefelin	X	X	X	X	X	✓	1
Pentrefoelas	✓	X	X	✓	✓	✓	4
Rhyd-y-foel	✓	X	X	X	X	X	1
St George	✓✓	X	X	✓	✓	X	4
Tal-y-cafn	✓	X	X	X	X	✓	2
Tyn-y-groes	X	X	X	X	X	✓	1
Bodtegwel	X	X	X	X	X	X	0
Bryn Rhyd-yr-Arian	X	X	X	X	X	X	0
Bryn-y-maen	X	X	X	X	X	X	0
Brymbo	X	X	X	X	X	✓	1
Bylchau	✓	X	X	X	X	X	1
Cefn Berain	X	X	X	X	X	X	0
Capelulo*	✓	X	X	X	X	✓	2
Cefn Brith	X	X	X	X	X	X	0
Dinmael	X	X	X	X	X	✓	1
Glasfryn	X	X	X	X	X	✓	1
Groesffordd	X	X	X	X	X	X	0
Gwytherin	✓	X	X	X	X	X	1
Hendre	X	X	X	X	X	X	0
Llanfihangel Glyn Myfyr	✓	X	X	X	X	X	1
Maerdy	✓	X	X	X	X	✓	1
Melin-y-coed	X	X	X	X	X	X	0
Nebo*	X	X	X	X	X	X	0
Pandy Tudur	X	X	X	X	X	X	0
Pentre Isa	X	X	X	X	X	X	0
Pentre-llyn-cymmer	X	X	X	X	✓	X	1
Pentre Tafarn-y-fedw	X	X	X	X	X	X	0
Rhydlydan	✓	X	X	X	X	✓	2
Tan-y-fron	X	X	X	X	X	X	0

Aneddiadau trefol a Chanolfan Gwasanaethau Allweddol

Prif Bentrefi

Pentrefi Bychain

Pentrefannau

Mae'r categorïau canlynol wedi eu defnyddio i asesu'r lefel o gyfleusterau ym mhob anheddiad. Caiff o leiaf 2 bwynt ei roi ar gyfer pob categori lle mae gan anheddiad sawl cyfleuster:

- Cyfleusterau cymunedol:
 - Neuadd gymunedol
 - Llyfrgell
 - Tafarn
 - Caffi
- Siopau a gwasanaethau
 - Siop Gyfleustra
 - Bwyd i fynd
 - Siop trin gwallt
 - Gorsaf betrol
 - Cyfleusterau manwerthu lleol eraill tebyg
- Cyfleusterau meddygol
 - Meddygfa
 - Ysbyty
- Mynediad at addysg
 - Ysgol gynradd
 - Ysgol uwchradd
- Cyfleoedd cyflogaeth
 - Busnesau eraill wedi eu lleoli yn yr anheddiad sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth drwy'r flwyddyn (ac eithrio tafarndai/siopau lleol a restrir mewn categorïau eraill).
- Cludiant cyhoeddus
 - Gwasanaethau bws rheolaidd
 - Gorsaf reilffordd

Atodiad 2: Poblogaeth ac aneddiadau rhanbarth etholiadol

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 (Nomis); Rhestr Tir ac Eiddo Lleol

Rhanbarth etholiadol / ward	Anheddiad	Poblogaeth (ward)	Cyfran a amcangyfrifir o fewn Eryri
Betws-yn-Rhos	Betws-yn-Rhos Llanfair Talhaearn Llanelian	1,953	0%
Betws-y-coed a Threfriw	Trefriw*	1,956	94% (1,845)
Bryn	Llanfairfechan (rhan)	1,751	4% (75)
Caerhun	Dolgarrog* Tal-y-bont / Castell Henryd Llanbedr y Cennin Tyn-y-groes Groesffordd Hendre	2,371	35% (830)
Colwyn Eirias	Hen Golwyn	8,150	0%
Conwy	Conwy	4,267	1% (30)
Craig y Don Gogarth Mostyn Tudno	Llandudno	15,129	0%
Deganwy	Deganwy / Llanrhos	3,763	0%
Eglwysbach a Llangernyw	Eglwysbach Llangernyw Tal-y-cafn Brymbo Gwytherin Pandy Tudur Pentre Isa	2,017	0%
Gele a Llanddulas Pensarn Pentre Mawr	Abergele / Pensarn Llanddulas Rhyd-y-foel	12,886	0%

Rhanbarth etholiadol / ward	Anheddiad	Poblogaeth (ward)	Cyfran a amcangyfrifir o fewn Eryri
	St George Bodtegwel		
Glyn Rhiw	Bae Colwyn Bryn-y-maen	10,574	0%
Glyn y Marl	Cyffordd Llandudno	7,686	0%
Bae Cinmel	Towyn / Bae Cinmel	5,905	0%
Llandrillo-yn-Rhos	Llandrillo-yn-Rhos	7,773	0%
Llanrwst a Llanddoged	Llanrwst Llanddoged Pentre Tafarn-y-fedw	3,740	0%
Llansanffraid	Glan Conwy Pentrefelin	2,129	0%
Llansannan	Llansannan Groes Llanefydd Bryn Rhyd-yr-Arian Bylchau Cefn Berain Tan-y-fron	1,819	0%
Llysfaen	Llysfaen	2,736	0%
Mochdre	Mochdre	2,005	0%
Pandy	Llanfairfechan (rhan)	1,790	0%
Penmaenmawr	Penmaenmawr Dwygyfylchi* Capelulo*	4,297	8% (325)
Penrhyn	Bae Penrhyn / Ochr y Penrhyn Bryn Pydew Glanwydden	4,589	0%
Towyn	Towyn / Bae Cinmel	2,267	0%
Uwch Aled	Cerrigydrudion Llangwm Pentrefoelas	1,736	0%

Rhanbarth etholiadol / ward	Anheddiad	Poblogaeth (ward)	Cyfran a amcangyfrifir o fewn Eryri
	Cefn Brith Dinmael Glasfryn Llanfihangel Glyn Myfyr Maerdy Pentre-llyn-cymmer Rhydlydan		
Uwch Conwy	Melin-y-coed Nebo*	1,467	85% (1,240)

Mae'r data poblogaeth uchod ar gyfer pob rhanbarth etholiadol yn eu cyfanrwydd, fodd bynnag mae rhai wardiau yn rhannol o fewn parc cenedlaethol Eryri. Er mwyn amcangyfrif y boblogaeth sydd o fewn Eryri (ac felly y tu allan i Gynllun Ardal CDLI Conwy), mae'r gyfran o anheddau o fewn pob ward etholiadol sydd o fewn Eryri wedi eu cyfrif, fel nodir isod (ffynhonnell: Rhestr Tir ac Eiddo Lleol Conwy).

- Betws-y-coed a Threfriw
- Uwch Conwy – 85%
- Caerhun – 35%
- Penmaenmawr – 8%
- Bryn – 4%
- Conwy - 1%

Cyfanswm poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy: 114,750

Amcangyfrifiad o boblogaeth Conwy o fewn parc cenedlaethol Eryri: 4,350

Poblogaeth ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Conwy: 110,400

Atodiad 3: Safleoedd ymgeisiol

Cyfeirnod y safle	Enw'r safle	Statws ffin yr anheddiad yn y CDLI	Statws ffin yr anheddiad yn y CDLIN	Oes angen newid ffin yr anheddiad?
1	Tir y tu cefn i Dolwen View, Bwlch y Gwynt, Llysfaen	Tu allan	O fewn	Datblygiad presennol o fewn y pentref yn ei amgylchynu. Ei gynnwys o fewn ffin ddiwygiedig yr anheddiad.
2	Tir oddi ar Ffordd Cae'r Melwr, Llanrwst	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu ac nid yw'n safle mewnlenni/ hap-safle rhesymegol.
3	Tir yng Nghaeffynnon, Ffordd Brenig, Cerrigydrudion, Corwen	Tu allan	O fewn	Rhodddwyd caniatâd cynllunio ar ran - wedi'i gynnwys o fewn ffin yr anheddiad
4	Hafod y Coed, Trefforis Road, Dwygyfylchi	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu ac nid yw'n safle mewnlenni/ hap-safle rhesymegol.
5	Tir yn Fferm Pen y Waen, yr Hen Briffordd, Bae Colwyn, LL28 5UY	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu ac nid yw'n safle mewnlenni/ hap-safle rhesymegol.
6	I'r dwyrain o Limpley Lodge, Craigside	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, mae o fewn Lletem Las, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu ac nid yw'n safle mewnlenni/ hap-safle rhesymegol.
7	Tir ger Eryl Arran, Bryn y Bia Road, Craigside	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, mae o fewn Lletem Las, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu ac nid yw'n safle mewnlenni/ hap-safle rhesymegol.
8	Tan y Graig Road, Llysfaen	Tu allan	O fewn	Mae'r safle yn dir glas, fodd bynnag mae bron wedi'i amgylchynu gan anheddau presennol a thir a ddatblygwyd yn flaenorol, ac nid oedd rhai ohonynt o fewn ffin yr anheddiad o'r blaen. Dylai ffin yr anheddiad gynnwys yn rhesymegol y clwstwr o tua 10 o anheddau presennol yn Hwylfa Dafydd ac eiddo cyfagos eraill. Mae Safle 8 hefyd yn dod o fewn yr ardal hon fel cyfle mewnlenni/ hap-safle posibl, yn amodol ar bob mater cynllunio.

Cyfeirnod y safle	Enw'r safle	Statws ffin yr anheddiad yn y CDLI	Statws ffin yr anheddiad yn y CDLIN	Oes angen newid ffin yr anheddiad?
9	Llanrwst Road, Bae Colwyn Uchaf	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, mae o fewn Lletem Las, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu ac nid yw'n safle mewnlenni/ hap-safle rhesymegol.
10	Gwellyn Avenue, Bae Cinmel	O fewn	O fewn	Mae'r safle i aros o fewn ffin yr anheddiad oherwydd ei fod o fewn yr ardal adeiledig.
11	Safle Johnson Woodcraft, Cader Avenue, Bae Cinmel	O fewn	O fewn	Mae'r safle i aros o fewn ffin yr anheddiad oherwydd ei fod o fewn yr ardal adeiledig.
12	Cader Avenue, Bae Cinmel	O fewn	O fewn	Mae'r safle i aros o fewn ffin yr anheddiad oherwydd ei fod o fewn yr ardal adeiledig.
13	Rhodfa Caer, y Rhyl. LL18 5LA	O fewn	O fewn	Mae'r safle i aros o fewn ffin yr anheddiad oherwydd ei fod o fewn yr ardal adeiledig.
14	Denbigh Circle, y Rhyl LL18 5HW	O fewn	O fewn	Mae'r safle i aros o fewn ffin yr anheddiad oherwydd ei fod o fewn yr ardal adeiledig.
15	Ger 25 Elwy Circle, y Rhyl LL18 5HF	O fewn	O fewn	Mae'r safle i aros o fewn ffin yr anheddiad oherwydd ei fod o fewn yr ardal adeiledig.
16	Ger 36 Elwy Circle, y Rhyl. LL18 5HF	O fewn	O fewn	Mae'r safle i aros o fewn ffin yr anheddiad oherwydd ei fod o fewn yr ardal adeiledig.
17	Tir rhwng 35 a 37 Owain Glyndwr, Bae Cinmel	O fewn	O fewn	Mae'r safle i aros o fewn ffin yr anheddiad oherwydd ei fod o fewn yr ardal adeiledig.
18	Tir ger 9 Owain Glyndwr, Bae Cinmel	O fewn	O fewn	Mae'r safle i aros o fewn ffin yr anheddiad oherwydd ei fod o fewn yr ardal adeiledig.
19	Owain Glyndwr, Bae Cinmel	O fewn	O fewn	Mae'r safle i aros o fewn ffin yr anheddiad oherwydd ei fod o fewn yr ardal adeiledig.
20	Holywell Crescent, Bae Cinmel	O fewn	O fewn	Mae'r safle i aros o fewn ffin yr anheddiad oherwydd ei fod o fewn yr ardal adeiledig.
21	Ystâd Tileries, Bae Cinmel	O fewn	O fewn	Mae'r safle i aros o fewn ffin yr anheddiad oherwydd ei fod o fewn yr ardal adeiledig.

Cyfeirnod y safle	Enw'r safle	Statws ffin yr anheddiad yn y CDLI	Statws ffin yr anheddiad yn y CDLIN	Oes angen newid ffin yr anheddiad?
22	Ystâd Bay Trading, Bae Cinmel	O fewn	O fewn	Mae'r safle i aros o fewn ffin yr anheddiad oherwydd ei fod o fewn yr ardal adeiledig.
23	2 Douglas Road, Bae Colwyn	O fewn	O fewn	Mae'r safle i aros o fewn ffin yr anheddiad oherwydd ei fod o fewn yr ardal adeiledig.
24	166 Yr Hen Briffordd, Mochdre	Tu allan	O fewn	Mae rhan o'r safle'n cynnwys annedd a chwrtil gerllaw datblygiad presennol ac wedi'i gynnig i'w gynnwys o fewn ffin yr anheddiad. Fel arall, y safle i barhau y tu allan i ffin yr anheddiad.
25	Tir yng Nghaer Ffynnon, Ffordd y Berth, Abergele	Tu allan	O fewn	Dyma estyniad bach i ffin yr anheddiad i ystyried tai presennol a safle sydd â chaniatâd cynllunio cyfredol.
26	Tir i'r dwyrain o Ddolgau, Dolwen Road, Hen Golwyn	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu ac nid yw'n safle mewnlenni/ hap-safle rhesymegol.
27	Yr Hen Ganolfan Arddio, Planhigfa Dolwyd, Dolwyd, Mochdre	Tu allan	Tu allan	Nid oes gan Dolwyd ffin anheddiad, ac nid yw wedi'i nodi yn hierarchaeth aneddiadau, felly nid oes cyfiawnhad dros lunio ffin yr anheddiad o amgylch y safle.
28	Llannerch Road, Llanfairfechan	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu ac nid yw'n safle mewnlenni/ hap-safle rhesymegol.
29	Tir yng Ngogr Ganol, Llansannan	Tu allan	O fewn	Estyniad bach i ffin yr anheddiad i gynnwys y safle hwn sydd wedi'i ddatblygu'n rhannol.
30	Hen Iard Nwyddau, Builders Street, Llandudno	O fewn	O fewn	Mae'r safle i aros o fewn ffin yr anheddiad oherwydd ei fod o fewn yr ardal adeiledig.
31	Tir gerllaw Tawelfan, Ty Du Road, Glan Conwy	Tu allan	Tu allan	Mae'r safle wedi'i raddio fel safle posibl i'w ddarparu, fodd bynnag ni ddylid ei gynnwys o fewn ffin yr anheddiad oni bai bod ei angen ar gyfer dyrannu.
32	Tir yn Ffermdy Ty Du, Ty Du Lane, Glan Conwy	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, mae o fewn Ardal Tirwedd Arbennig, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu ac nid yw'n safle mewnlenni/ hap-safle rhesymegol.

Cyfeirnod y safle	Enw'r safle	Statws ffin yr anheddiad yn y CDLI	Statws ffin yr anheddiad yn y CDLIN	Oes angen newid ffin yr anheddiad?
33	Tir ym Maes y Felin, oddi ar Llanrwst Road, Glan Conwy	O fewn	O fewn	Mae gan y safle ganiatâd cynllunio (datblygiad yn mynd rhagddo) ac mae eisoes o fewn ffin yr anheddiad, ac felly nid oes angen unrhyw newid.
34	Tir ger y Premier Inn, Ffordd Conwy, Cyffordd Llandudno	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu ac nid yw'n safle mewnlenni/ hap-safle rhesymegol.
35	Tir ger Parc Masnach Mochdre, Ty Gwyn Road, Dolwyd	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu ac nid yw'n safle mewnlenni/ hap-safle rhesymegol.
36	Tir ger Ystâd Ddiwydiannol Cyffordd Llandudno, Ffordd Conwy, Cyffordd Llandudno	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu ac nid yw'n safle mewnlenni/ hap-safle rhesymegol.
37	Fron Heulog, Twll Llwynog, Abergele	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu ac nid yw'n safle mewnlenni/ hap-safle rhesymegol.
38	Tir rhwng Hawes Drive a Maes y Castell, Deganwy	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, mae o fewn Lletem Las, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu.
39	Tir ger Bryn Lupus Road, Llanrhos, Llandudno (Opsw 1)	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, mae o fewn Lletem Las, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu. Mae rhan o'r safle yn ddyblygiad o safle 40.
40	Tir ger Bryn Lupus Road, Llanrhos, Llandudno (Opsw 2)	Tu allan	Tu allan	Mae'r safle wedi'i raddio fel safle posibl i'w ddarparu, fodd bynnag ni ddylid ei gynnwys o fewn ffin yr anheddiad oni bai bod ei angen ar gyfer dyrannu.
41	Tir oddi ar Valley Road, Bae Colwyn	O fewn	O fewn	Estyniad bach i ffin yr anheddiad i ystyried tai presennol a safle sydd â chaniatâd cynllunio cyfredol.
42	Tir oddi ar Iscoed, Gyffin	Tu allan	Tu allan	Gweler safle 192
43	Tir oddi ar Ffordd Cae'r Melwr, Llanrwst	Tu allan	Tu allan	Mae'r safle yn ddyblygiad o safle 2, sydd wedi'i raddio fel safle posibl i'w ddarparu, fodd bynnag ni ddylid ei gynnwys o fewn ffin yr anheddiad oni bai bod ei angen ar gyfer dyrannu.
44	Tir ym Mryn Celyn, Llysfaen	Tu allan	O fewn	Wedi'i gynnwys o fewn ffin yr anheddiad fel cwrtill Bryn Celyn.

Cyfeirnod y safle	Enw'r safle	Statws ffin yr anheddiad yn y CDLI	Statws ffin yr anheddiad yn y CDLIN	Oes angen newid ffin yr anheddiad?
45	Tir i'r gogledd o Ffordd Bwlch Sychnant, Conwy	Tu allan	Tu allan	Byddai'r safle'n ffurfio estyniad i'r anheddiad i gefn gwlad agored. Ni ddylid ei gynnwys o fewn ffin yr anheddiad oni bai bo'r safle i'w ddyrannu.
46	Tir Glebe Tal y Bont, Tal y Bont	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu, ac mae'n dod o fewn Parth Llifogydd 2 ac felly'n amhriodol ar gyfer datblygu.
47	The Stables, Colwyn Road, Llandudno	Tu allan	Tu allan	Nid yw'r safle wedi'i ddatblygu, mae o fewn Lletem Las, nid yw wedi'i gynnig i'w ddyrannu ac nid yw'n safle mewnlenni/ hap-safle rhesymegol.
48	Tyddyn Bach, Graiglwyd Road, Penmaenmawr	Tu allan	Rhannwyd	Dylid newid ffin yr anheddiad i gynnwys cwrtil yr adeilad presennol (Tyddyn Bach). Fel arall, dylai'r safle barhau tu allan i ffin yr anheddiad oni bai bod ei angen ar gyfer dyrannu.
